

DOLEN Y TAB 111

17 - 18 Mehefin 2022

Oedfa Sul 19 Mehefin am 11

Glenys Roberts ac Edwyn Evans
gydag Eleri'n cyfeilio

YR OEDFAON NESAF

Mehefin

26 Ann ac Emlyn Davies

Gorffennaf

3 Oedfa Gymun yng nghwmni Eifiona, Audrey
a Rhiannon Humphreys

10 Y Parchedig Aled Edwards

17 Oedfa yng ngofal yr Ysgol Sul

24 Ymuno â Bethlehem, Gwaelod y Garth

31 Y Parchedig Eirian Rees a'r teulu

Hefyd ddydd Sul 19 Mehefin

12.00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Miriam Watling, Llundain

12.30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol - Emynau Mawl

Yr wythnos yma, cawn fwynhau emynau o bob rhan o Gymru yng nghwmni Nia Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru



Y plant a'r oedolion yn mwynhau eu picnic yn yr haul

O'r Diwedd!

I ddathlu dechrau'r haf trefnwyd y trip cyntaf i blant yr Ysgol Sul ers amser maith ar fore Sul 12 Mehefin. Fferm Amelia Trust ym Mro Morgannwg oedd y gyrchfan y tro hwn. Mae amrywiaeth o atyniadau ar y fferm ac fel yr awgryma'r enw mae'r sefydliad yn elusen gofrestrdedig sy'n arbenigo mewn cynnig amgylchedd croesawgar a gofalgar i blant sydd dan anfantais neu'n fregus. Bendithiwyd criw'r Ysgol Sul gyda bore braf iawn a deallwn fod pawb wedi joio mas draw. Diolch yn arbennig i'r oedolion hynny fu'n gyfrifol am drefnu'r ymweliad.

Cyrchfan Garddwyr?

Mae'r papurau newydd a chylchgronau sgleiniog yn sôn byth a beunydd am fwytai cyrchfan, sef bwytai o'r radd flaenaf y mae rhai'n barod i deithio cannoedd o filltiroedd er mwyn profi'r danteithion a gynigir ynddynt. Byddai'n rhesymol felly mabwysiadu'r un cysyniad ar gyfer gerddi megis Dyffryn ym Mro Morgannwg a Bodnant yn Nyffryn Conwy sy'n denu'r miloedd bob blwyddyn. Mae'n bosib y gwelwn gyrchfan arddwriaethol newydd yn lleol yn y dyfodol yn dilyn ymweliad cangen Merched y Wawr, Tonysguboriau â gardd gymunedol y Tabernacl bnawn Mercher. Eisoes mae gennym dywysydd swyddogol penigamp, sef John Llew, sy'n amlwg wrth ei fodd yn ei rôl newydd.



RHESTR FLODAU

A ninnau bellach ar drothwy ail hanner 2022, gair i'ch atgoffa bod y rhestr flodau wedi ei gosod yn ei lle arferol ar yr hysbysfwrdd yng nghyntedd y capel. Ar hyn o bryd mae nifer o Suliau i'w llenwi am weddill y flwyddyn y medrwyd ddewis o'u plith. Cofiwch, fodd bynnag, na fydd oedfa yma yn y Tabernacl ar y Suliau canlynol - 24 Gorffennaf, 7 a 14 Awst - pan fyddwn yn cyd-addoli yng Ngwaelod y Garth gydag aelodau Eglwys Bethlehem.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cofiwch fod modd anfon cofnodion y Bwrdd at unrhyw aelod o'r Tabernacl sydd am derbyn copi wedi iddynt gael eu cadarnhau trwy gysylltu gyda:

gehpengwern@yahoo.co.uk neu ffonio 01443 237327



Briwsion o'r Bwrdd

Cynhaliwyd cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr nos Fawrth diwethaf gydag Edwyn yn y Gadair. Dyma grynodedb o rai o'r materion oedd dan sylw.

Costau Tanwydd

Mae'n anochel y bydd raid wynebu codiadau sylweddol ym mhrys nwy a thrydan dros y blynnyddoedd nesaf ac felly bydd raid bod yn fwy darbodus wrth wresogi'r Capel a'r Ganolfan. Cytunwyd hefyd i adolygu'r telerau a godir ar ddefnyddwyr allanol o ddechrau Hydref ymlaen.

Y Gynulleidfa Iaith Saesneg

Adroddodd Edwyn ar gyfarfod gyda'r aelodau fore Sul diwethaf lle croesawyd penderfyniad y Bwrdd i'w hysbysu'n rheolaidd am unrhyw ddatblygiadau y dylent fod yn ymwybodol ohonynt.

Adroddiad y Cynllun Arloesi a Buddsoddi

Canmolwyd Eleri Mai ar yr holl weithgareddau a'r profiadau amrywiol y mae'n eu darparu i'r plant lleiaf ac i'r bobl ifanc. Mae ei brwdfrydedd heintus wedi chwarae rhan cwbl allweddol ym mywyd yr eglwys dros y naw mis diwethaf ac yng ngeiriau'r Cadeirydd mae'n 'gaffaeliad mawr iawn i'r achos'.

Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Adroddodd Eleri Jones fod dros £4,000 wedi ei godi mor belled at Apêl Wcráin, a chasglwyd ychydig dros £2,000 i gynorthwyo trigolion Zimbabwe fel rhan o ymgyrch Wythnos Cymorth Cristnogol. Llongyfarchwyd y Gweithgor ar lwyddiant yr ymgyrchoedd hyn ac am drefnu'r gefnogaeth i'r banciau bwyd lleol. Cyfeiriwyd hefyd at yr holl waith a wneir dan arweiniad John Llew, mewn partneriaeth gyda Pobl, i helpu unigolion sydd ar fin symud o loches i'w cartref eu hunain. Gyda haelioni aelodau'r Tabernacl a'r gymuned leol llwyddir i gasglu celfi ac offer cegin, dillad gwely a dodrefn a hynny gan amlaf ar fyr rybudd.



Coffi a Sgwrs
Canolfan y Tabernacl
Bob bore Mawrth
10.30-12.00
Croeso i bawb



PARTI PONTY
partiponty.cymru

2^{IL}

GORFFENNAF 2022
9:00-16:30

PARC COFFA YNYSANGHARAD

GŴYL GYMRAEG I BAMB
CERDDORIAETH BYW
YSGOLION **GWEITHGAREDDAU TEULU**
CHWARAEON

Mwynhau'r Gymraeg **BWYD A DIOD A HWY...** **HWYNEID AM DDIM**



Gwahoddiad i

BARBECIW
CAPEL Y TABERNACL

Dydd Sul 10fed o Orffennaf
12 o'r gloch
Y Ganolfan a'r Ardd Gymunedol



BABI TWM

Y Ganolfan,
Capel Tabernacl

10.00-11.30

Mehfin 6ed & 20fed,
Gorffennaf 4ydd & 18fed

Croeso i rieni, gwarchodwyr, Nain, Tad-cu a'i plant/wyrion/wyresau

Sut i logi'r Capel neu'r Ganolfan?

E-bostiwrch
gehpengwern@yahoo.co.uk
Neges Testun
07710 237327
Ffonio
01433 225205

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk